

Siopa Teg/Fair Do's Ltd
Cytundeb Cynrychiadol Gwerthu neu Ddychwelyd. Awst 2013

Mae'r cytundeb hwn yn cyfeirio at bob achos pan gymerir nwyddau o Siopa Teg (Fair Do's Ltd) at ddibenion gwerthu neu ddychwelyd ar neu ar ôl 30 Awst, 2005.

Wrth lofnodi'r cytundeb hwn, mae'r cynrychiolydd yn cydnabod:-

- a) y gellir casglu neu ddychwelyd unrhyw nwyddau 'gwerthu neu ddychwelyd' rhwng 10 y bore ac 1 y prynhawn yn unig.
- b) ei fod/bod wedi ei ymrwymo/hymrwymo wrth amodau'r cytundeb hwn ynghylch y cyfnod y gellir cymryd yr eitemau ar gyfer eu gwerthu. **30 diwrnod** yw'r cyfnod hwn, er bod eithriadau penodol wedi eu nodi isod.
- c) bod rhaid dychwelyd y nwyddau ar neu cyn y **dyddiad dychwelyd**, sef y dyddiad a fydd yn cael ei hysgrifennu ar y taflenni stoc. Rhaid llenwi'r taflenni yn Siopa Teg.
- d) mai nhw sy'n gyfrifol am ddychwelyd y stoc mewn cyflwr y gellir ei werthu, ac yn achos nwyddau darfodus, eu bod yn cael eu dychwelyd o fewn tri mis i'r dyddiad 'ar ei orau cyn'.
- e) ei fod/bod **yn gyfrifol am ei stoc yr holl amser** nad yw ar safle Siopa Teg (sef y siop ar 10 Heol Llandaf, Treganna). Ni all Siopa Teg gael yswiriant am nwyddau pan nad ydynt ar y safle.
- f) bod disgwyl iddo/iddi dalu'n llawn am yr holl nwyddau a werthwyd ganddo/ganddi, neu fel arall, heb ei gyfrif amdano wrth ei ddychwelyd i'r safle, neu ar ôl y cyfnod o amser y cytunwyd arno.

Nwyddau a ddychwelir

Rhaid dychwelyd nwyddau sydd heb eu gwerthu ar neu cyn y 30ain diwrnod, gyda'r taliad llawn ar gyfer y nwyddau a werthwyd ynghyd â thafleuni gwerthiant. **Mae Siopa Teg yn cadw'r hawl i wirio'r holl nwyddau sy'n cael eu dychwelyd.** Codir tâl ar y cynrychiolydd am unrhyw nwyddau sydd ar goll, wedi torri, wedi eu difrodi, eu baeddu, wedi mynd allan o ddyddiad, sef gyda dyddiad 'ar ei orau cyn' agos (h.y. llai nag wyth wythnos), neu fel arall mewn cyflwr sy'n golygu na ellir gwerthu'r nwyddau.

Eithriadau

Ar gyfer yr eitemau canlynol, caiff y cyfnod pan fo rhaid dychwelyd y nwyddau neu dalu amdanynt ei leihau i **ddeuddeg diwrnod**.

- a) **eitemau crefft** ym misoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr.
- b) **eitemau tymhorol**, fel cardiau Nadolig, bwydydd Nadolig ayb.

Bydd y dyddiadau ar gyfer dychwelyd eitemau gyda dyddiadau penodol yn cael eu dangos yn y siop, a rhaid cadw atynt. Mae'r nwyddau hyn yn cynnwys Calendrau Adfent, Calendrau'r Flwyddyn, cardiau Nadolig, bwydydd Nadolig, nwyddau'r Pasg a nwyddau tymhorol eraill. Codir tâl ar gyfrif y cynrychiolydd am unrhyw nwyddau sy'n cael eu dychwelyd ar ôl y dyddiad penodol, a chyfrifoldeb y cynrychiolydd fydd gwerthu'r nwyddau neu eu gwaredu.

Nodiadau pellach

- a) Rhaid i'r **holl** nwyddau sydd heb eu gwerthu ar ddiwedd y cyfnod o 30 diwrnod cael eu dychwelyd i Siopa Teg. Nid yw'n dderbyniol i beidio â chadw cyfrif o unrhyw eitemau ar ôl 30 diwrnod. Ni chaniateir i unrhyw eitemau o stoc gael eu cadw a'u nodi ar daflen newydd.
- b) **Rhaid** i'r cynrychiolydd rhoi manylion cyswllt cyfoes i Siopa Teg, gan gynnwys rhif ffôn personol.
- c) Mewn **amgylchiadau eithriadol**, gellir ymestyn y cyfnod o 30 diwrnod, ond rhaid i'r ddwy ochr gytuno ar hyn o leiaf **saith diwrnod** cyn y dyddiad dychwelyd, sydd wedi ei nodi ar y taflenni stoc.
- d) Os daw hi'n amlwg nad yw'r cynrychiolydd yn dilyn gofynion y cytundeb hwn, mae Siopa Teg yn cadw'r hawl i ddileu'r cytundeb hwnnw. Bydd Siopa Teg yn atal y cynrychiolydd rhag cymryd fwy o stoc ar sail gwerthu neu ddychwelyd. Caiff y dilead hwn o'r cytundeb ei gyfleu i'r cynrychiolydd trwy lythyr.
- e) Fel rhan o'n Gwobr Hylendid Bwyd, mae'n rhaid i ni bwysleisio bod angen i unrhyw un sy'n cludo stoc mewn car preifat sicrhau bod y car yn lân, ac yn rhydd o unrhyw bosibilrwydd y gellid ei halogi, e.e. blew anifeiliaid anwes, caniau petrol ayb.

Rydw i, y cynrychiolydd, wedi darllen ac yn deall y cytundeb gwerthu neu ddychwelyd hwn. Sylweddolaf fod arnaf ddyletswydd i gadw cyfrif am yr holl stoc a gymeraf ar ôl 30 diwrnod drwy ddychwelyd y stoc neu unrhyw arian, ac eithrio pan fo eithriadau, fel y nodir yn y cytundeb, yn berthnasol.

Cytunaf i dderbyn cylchlythyr Siopa Teg hyd at chwe gwaith y flwyddyn.

Llofnod:..... Dyddiad:.....

Enw (printiwch):.....

Cyfeiriad:.....

Rhif ffôn:.....

Cyfeiriad e-bost:.....

Cynrychioli (ee. Eglwys neu weithle).....